Ministry of Justice

# Crynodeb gweithredol

Yn *McCloud*[1] penderfynodd y Llys Apêl fod amddiffyniadau trosiannol a ddarperir i farnwyr hŷn fel rhan o ddiwygiadau pensiwn barnwrol 2015 yn wahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon ar sail oedran. O 1 Ebrill 2015 ymlaen, roedd barnwyr iau wedi cael eu symud o'u hen gynlluniau, Cynllun Pensiwn Barnwrol 1993 (JUPRA)[2] neu'r cynllun cyfatebol i'r rhai sy'n derbyn ffi, y Cynllun Pensiwn Barnwrol i'r Rhai y Telir Ffi Iddynt (FPJPS),[3] y ddau ohonynt yn gynlluniau cyflog terfynol anghofrestredig at ddibenion treth, i Gynllun Pensiwn Barnwrol Newydd 2015 (NJPS), cynllun cyfartaledd gyrfa, cofrestredig at ddibenion treth, sydd â chyfradd gronni is. Cafodd y barnwyr a oedd agosaf at ymddeol eu diogelu rhag y newidiadau oherwydd eu hoed, gan aros yn JUPRA/FPJPS. Penderfynodd y Llys fod amddiffyniad o'r fath yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn barnwyr iau.

Gwrthodwyd cais y Llywodraeth am ganiatâd i apelio i'r Goruchaf Lys a chafodd yr achos ei anfon at y Tribiwnlys Cyflogaeth i gytuno ar rwymedi i hawlwyr. Ers hynny, mae'r Tribiwnlys Cyflogaeth wedi gwneud datganiadau bod gan farnwyr sy'n hawlwyr hawl i fod yn aelodau o JUPRA/FPJPS o 1 Ebrill 2015.

Derbyniodd y Llywodraeth fod gan ddyfarniad y Llys Apêl oblygiadau i bob cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus a ddiwygiwyd yn 2015,[4] gan fod pob un yn cynnwys mesuaru diogelu trosiannol ar gyfer aelodau hŷn. Ers hynny, mae wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu yn erbyn yr holl weision cyhoeddus yr effeithir arnynt, p'un a wnaethant hawliad ai peidio. Felly, mae Trysorlys EM yn ymgynghori ar gynigion i ddileu'r gwahaniaethu o'r rhan fwyaf o gynlluniau a sefydlwyd o dan

---

[1] *Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ac un arall v McCloud ac eraill; Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref ac eraill v Sargeant ac eraill, [2018] EWCA Civ 2844*

[2] Mae cyfeiriadau at JUPRA drwy'r ddogfen hon yn cynnwys cynlluniau pensiwn barnwrol cyn 1995.

[3] Rhoddwyd FPJPS ar waith i unioni'r gwahaniaethu a nodwyd yn *O'Brien*. Canfu'r llysoedd fod gan ddeiliaid swyddi barnwrol cymwys y telir ffi iddynt hawl i fuddion pensiwn nad oeddent yn llai ffafriol na'r rhai a gâi eu darparu ar y pryd i farnwyr cyflogedig gan JUPRA. Felly, cynlluniwyd FPJPS i adlewyrchu JUPRA cyn belled ag y bo modd ac ni fyddai'n llai ffafriol lle nad oedd modd adlewyrchu'r trefniadau o dan JUPRA. Sefydlwyd FPJPS o dan y Rheoliadau Pensiynau Barnwrol (Barnwyr y Telir Ffi Iddynt) yn 2017 ac roedd yn darparu buddion pensiwn ar gyfer gwasanaeth yn y gorffennol ac yn y dyfodol. O'r herwydd, nid oedd ar waith ar 1 Ebrill 2015, ond yr effaith ymarferol bellach yw bod gan farnwyr iau hawl i fuddion FPJPS nes iddynt ddod yn aelodau o NJPS o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

[4] Cafodd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei ddiwygio yn 2014.

Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.[5] Ac ystyried natur unigryw'r cynlluniau pensiwn barnwrol, mae gofyn ymgynghori ar wahân ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r gwahaniaethu yn erbyn barnwyr nad ydynt yn hawlwyr yr effeithir arnynt gan *McCloud*. I fod o fewn cwmpas y cynigion, rhaid bod barnwyr yn eu swydd ar 31 Mawrth 2012 a 31 Mawrth 2015 ac yn aelod, neu â hawl i fod yn aelod, o JUPRA/FPJPS ar y dyddiadau hynny.[6]

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig y dylid rhoi dewis i farnwyr sydd o fewn cwmpas *McCloud* p'un ai i gael buddion cronedig ôl-weithredol naill ai JUPRA/FPJPS neu NJPS o 1 Ebrill 2015. Byddai'r dewis yn cael ei wneud drwy 'ymarferiad opsiynau' ffurfiol ar ôl diwedd y cyfnod unioni, er y dylai barnwyr sydd wedi ymddeol neu sydd i fod i ymddeol cyn 2022 allu gwneud eu penderfyniad yn gynt.

Byddai'r ymarferiad opsiynau yn dilyn cyflwyno cynllun pensiwn diwygiedig y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu ei gyflwyno ar gyfer pob barnwr o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Byddai hyn yn sicrhau bod pob aelod gweithredol yn cael ei drin yn gyfartal o ran cynllun pensiwn am wasanaeth y tu hwnt i'r cyfnod unioni. Mae'r cynllun diwygiedig yn destun cynigion ar wahân a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

Mae'n bwysig ymgynghori yn hytrach na dychwelyd pob barnwr sydd o fewn cwmpas i'w cynlluniau cyn 2015 oherwydd nid yw'n wir o reidrwydd y bydd pob barnwr mewn gwell sefyllfa os caiff ei ddychwelyd i JUPRA/FPJPS o 1 Ebrill 2015 ymlaen.

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut yr ymdrinnir â threth a chyfraniadau'r gorffennol pan fydd barnwyr yn dewis dychwelyd i JUPRA/FPJPS. Fodd bynnag, yng ngoleuni gwrandawiadau Tribiwnlys Cyflogaeth *McCloud* sy'n parhau, a thrafodaethau rhwng partïon – a fydd yn sail i'r ffordd y byddwn yn ymdrin â'r rhai nad ydynt yn hawlwyr – gall agweddau ar ein cynigion newid yn amodol ar yr hyn a gytunir neu a benderfynir fel rhan o'r broses honno.

## Rhyngweithio ag ymgynghoriadau eraill

Yn ogystal â *McCloud* mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymgynghori ar yr un pryd ar gynigion i:

[5] Mae cynigion Trysorlys EM yn cynnwys cynlluniau ar gyfer gweithwyr y GIG, athrawon, diffoddwyr tân, yr heddlu, gweision sifil a lluoedd arfog y DU. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ymgynghori ar wahân ynghylch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

[6] Gweler hefyd yr adran ar 'Aelodau cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus' isod.

- cyflwyno cynllun pensiwn barnwrol diwygiedig;
- darparu pensiwn am wasanaeth y talwyd ffi amdano cyn 2000 yng ngoleuni dyfarniadau *O'Brien 2*[7] a *Miller*[8]; a
- chynyddu'r oedran ymddeol gorfodol barnwrol.

[7] O*'Brien v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Achos C-432/17) [2018]*

[8] *Miller ac Ors v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder [2019] UKSC 60*